Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Adroddiad Crynhoi'r Gyllideb 2023 i 2024

# Crynodeb o’r Gyllideb 2023-24

Cynnwys

**Rhagarweiniad a Chrynodeb** **3**
Setliad Llywodraeth Cymru (LlC) 2023/24 3
Cyllideb Refeniw 2023/2024 4
Cyllid Refeniw Sir Ddinbych 2023 / 2024 7
Meysydd y Gyllideb a’u Dyraniadau Ariannol 8
Balansau 8
Treth y Cyngor 9
Cynllun Cyfalaf 2023/24 9
Y Stoc Dai 10
Casgliad 11

**Atodiad 1: Crynodebau Cyllideb Adrannol** **13**
Tai a chymunedau 13
Addysg a Gwasanaethau Plant 14
Ysgolion 14
Cefnogaeth Gorfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau 15
Cefnogaeth Gorfforaethol: Pobl 16
Cyllid ac Archwilio 17
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol 17
Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad 19
ADM - Cyllidebau Gweddilliol Hamdden 21
Corfforaethol a Amrywiol 21

**Atodiad 2: Cynllun Cyfalaf Cyngor Sir Ddinbych 2022/23 – 2025/26** **23**
Cynllun Cyfalaf Cyffredinol 23
Gwasanaethau Cynllun Cyfalaf 25

**Atodiad 3: Y Cyfrif Refeniw Tai a’r Cynllun Cyfalaf Tai** **33**
Rhagarweiniad 33
Cyllideb Refeniw Tai 33
Polisi Rhent Llywodraeth Cymru 33
Cynllun Cyfalaf Tai 34
Cyfrif Refeniw Tai - Cyllideb 2023/24 35

# Crynodeb o’r Gyllideb 2023-24

## Rhagarweiniad a Chrynodeb

Diben Llyfr y Gyllideb yw dangos i Aelodau, Swyddogion ac unrhyw un arall â diddordeb sut mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu gwario ei gyllidebau Refeniw a Chyfalaf. Bydd hefyd yn rhoi manylion y Cyfrif Refeniw Tai a’r Gyllideb Cyfalaf Tai ar gyfer 2023/24.

Mae’r wybodaeth a gyflwynir yn y llyfryn hwn yn rhoi manylion costau uniongyrchol gwasanaethau sydd o dan reolaeth deiliaid cyllideb. Ailstrwythurwyd Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor o Ebrill 2023, felly dangosir y wybodaeth am un flwyddyn yn unig. Mae cyllidebau 2023/24 yn cynnwys eitemau nad ydynt eto wedi’u neilltuo i wasanaethau, fel rhai cronfeydd wrth gefn ar gyfer chwyddiant a chyllidebau i dalu am waith trwsio a chynnal a chadw.

Pennir strategaeth ariannol y Cyngor yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae hon yn strategaeth ariannol dreigl tair blynedd ac mae’n helpu i ddarparu’r cyd-destun ar gyfer gweithgarwch y flwyddyn bresennol.

### Setliad Llywodraeth Cymru (LlC) 2023/24

Cafwyd y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2023/24 ar 14 Rhagfyr 2022 ac arweiniodd at setliad cadarnhaol o +8.2%, oedd yn cymharu â sefyllfa gyfartalog Cymru o +7.9%. Roedd y Setliad Terfynol a gafwyd ar 28 February 2023 yn cadarnhau’r sefyllfa hon. O fewn y ffigur a gyhoeddwyd mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod nifer o gyfrifoldebau newydd, ac nid oes gan bob un ohonynt symiau canlyniadol clir yn y data. Mae’r disgwyliadau sy’n ofynnol i ni eu hariannu yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r holl godiadau cyflog ar gyfer swyddi addysgu a swyddi nad ydynt yn addysgu wedi'u cynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw.
- Cyfrifoldeb i dalu’r Cyflog Byw Gwirioneddol ein Gofal Cymdeithasol ein hunain a’r Gofal Cymdeithasol yn y sector breifat.

# Crynodeb o’r Gyllideb 2023-24

Mae'r setliad drafft yn cynnwys cynnydd bychan yng nghodiadadau setliad cyfartalog dangosol o 3.0% ar gyfer 2024/25. Er bod hyn yn cael ei groesawu o safbwynt cynllunio, mae’n cynrychioli gostyngiad termau real mewn cyllid pan fo gwasgedd chwyddiannol yn cael ei ystyried. Mae’n eglur y bydd yr angen i wneud penderfyniadau anodd yn parhau dros y blynyddoedd nesaf.

‘Roedd y Setliad Terfynol yn dangos cynnydd mewn cyllid cyfalaf o £1.026m to £6.129m.

## Cyllideb Refeniw 2023/2024

Yng nghyfarfod y Cyngor ar 31 Ionawr 2023 bu’r aelodau’n ystyried a chymeradwyo cynigion cyllideb y Cabinet ac effaith y rheiny ar Dreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf..

Roedd prif nodweddion y cynigion yn cynnwys:

- Setliad cadarnhaol o +8.2% yn refeniw Llywodraeth Leol y Cyngor gan Lywodraeth Cymru.
- Nid oedd unrhyw ‘drosgwyddiadau i mewn’ wedi’u cynnwys yn y setliad draft.
- Pwysau cyflog (gan gynnwys effaith net y gostyngiad mewn Yswiriant Gwladol) o £3.269m.
- Chwyddiant pris ac ynni o £2.897m – gan gynnwys amcangyfrifon cynnydd ynni diweddaraf a dderbyniwyd ar 22 Rhagfyr (cynnydd o £2.6m).
- Ardoll y Gwasanaeth Tân o £535k.
- Lwfans ar gyfer cynnydd yn y Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor o £350k.
- Pwysau chwyddiant ysgolion yn cael eu cydnabod yn swm o £3.936m.
- Pwysau demograffig ysgolion o £310k.
- £8.187m i gydnabod pwysau’r galw a’r rhagolygon mewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol fel rhan o strategaeth hirdymor y Cyngor i reoli cyllidebau gofal, yn ogystal â chydnabod y rhaglen er mwyn sicrhau y telir y Cyflog Byw Gwirioneddol i’r holl staff gofal.

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

- £2.7m i gydnabod y pwysau presennol mewn Addysg a Gwasanaethau Plant sy'n ymwneud â Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir ac Adennill.
- £1m o bwysau i fodloni'r costau cynyddol o fewn Cludiant i'r Ysgol, sy'n dod yn amlwg yn y gwithdrefnau monitor misol.
- Cynnydd mewn costau yswiriant mewn perthynas ag effaith chwyddiant o £150k
- Buddsoddiad mewn blaenoriaethau yn dod i £500k:
    - Buddsoddiad pellach yn y Prosiect Di-Garbon o £134k ar gyfer staff ychwanegol i gyflawni'r gwaith angenrheidiol. Mae'r rhaglen yn cynnig defnyddio'r dyraniad cyfredol o fenthyca darbodus er mwyn cyllido gwariant cyfalaf yn 2023/34 yn sgil tanwariant dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
    - Buddsoddiad cynyddol yn y Rhaglen Gyfalaf Priffyrdd fel y cynigir gan y Cyngor (£4 o gyfalaf) – mae angen amcangyfrif o £235k yn y Gyllideb Cyllid Cyfalaf.
    - Mae hyn yn gadael £131k y cynigir ei ddefnyddio yn y flwyddyn i barhau i ariannu prosiectau cyfalaf yn ystod y flwyddyn (e.e. y rhai a ddygwyd ymlaen gan yr ymarfer Sganio'r Gorwel new u ddaw allan o'r Cynllun Cyfalaf) – Byddai £131k yn golygu buddsoddiad cyfalaf o oddetu £2.2m.
- Pwysau anstrategol o £1.282m ar wasanaethau – pwysau a gofynion ar gyfer buddsodiadau a nodwyd gan y gwasanaethau eu hunain.

Mae'r pwysau a nodwyd uchod yn dod i gyfanswm o £25.116m. Byddai angen setliad draft o tua 14.5% er mwyn ariannu'r pwysau hyn i gyd. Mae'r setliad net +8.2% yn cynhyrchu £14.231m o refeniw ychwanegol gan adael bwlch cyllido o £10.885m. Mae'r eitemau canlynol wedi eu cynnwys yn y cynigion er mwyn pontio'r bwlch hwnnw:

- Mae arbedion yn y Gyllideb Ariannu Cyfalaf yn dod i £1.067m – nid yw'r rhain yn adlewyrchu gostyngiadau yn y rhaglen gyfalaf ond yn hytrach, cynnydd yn y defnydd o arian parod ac oedi mewn rhai prosiectau.

## Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

- Arian at Raid Corfforaethol mewn perthynas â'r elfen heb ei ddefnyddio o'r Arain at Raid Covid a roddwyd i'r neilltu fel rhan o'r broses gyllidebol y llynedd, yn dod i £1.200m.
- Mae effaith yr adolygiad actiwaraidd teirblwydd o Gronfa Bensiynau Clwyd yn golygu for y Cyngor bellach mewn sefylfa o arain dros ben yn hytrach na diffyg sylweddol sydd angen ei dalu. Mae hyn wedi arwaun at arbedion o £3.828m.
- Mae'r arbedion o ddod â'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau yn ôl yn fewnol bellach wedi'u cadarnhau a gall £300k arall gael ei ryddhau.
- Gofynnwyd i Wasanaethau ganfod arbedion/effeithlonrwydd o 1% ac fe ganfuwyd arbedion o £961k fel y vrynhoir isod:
    - Mae Cyllidebau Incwm Ffioedd a Thaliadau wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â'r polisi Ffioedd a Thaliadau a gytunwyd, sy'n cynyddu incwm allanol o £423k.
    - Mae arbedion yn cynnwys elfen o dâl gwasanaeth yn dod i £371k.
    - Mae gostyngiadau cyllideb technegol nad yw'n cael unrhyw effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth yn dod i £167k.
- Hefyd gofynnwyd i ysgolion gynllunio ar gyfer arbedion effeithlonrwydd o 1% sy'n dod i £816k.
- Argymhellir bod Treth y Cyngor yn cynyddu o 3.8% a fydd, ynghyd â mân newidiadau i Sylfaen y Dreth Gyngor, yn creu refeniw ychwanegol o £2.713m. Mae'r lefel hwn ar ochr isaf y cynnydd dangosol ar draws Cymru. Mae hefyd yn is na'r cyfartaledd o 4.35% dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Y gyllideb refeniw fros ar gyfer 2023/24 yw £354.119m. Bydd y Cyngor yn cynhyrchu neu'n derbyn £44.065m mewn ffioedd a thaliadau ac incwm arall, ac yn derbyn £59.261m mewn grantiau penodol, gan adael cyllideb refeniw net o £250.793m i'w ddiwallu gan Lywodraeth Cymru a Threthdalwyr. Mae'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2023/24 yn £156.587m ac mae dyraniad y cyngor o gronfa'r Trethi Annomestig Cenedlaethol yn £31.437m, gan roi ffigwr Cyllid Allanol Cyfun o £188.024m. Yr incwm a ddisgwylir o Dreth y Cyngor yw £62.769m. Mae'r gyllideb o £250.793m yn £2.631m yn uwch na'r Asesiad Gwario Safonol

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

sef £248.162m – amcangyfrifiad Llywodraeth Cymru o'r hyn sydd ei angen i ddarparu 'lefel gwasanaeth safonol'.

## Cyllid Refeniw Sir Ddinbych 2023 / 2024




Mae'r cynnydd ar gyfer y gyllideb fel a ganlyn:

| Maes Refeniw | Canran |
|---|---|
| **Setliad Llywodraeth Cymru (AEF)** | 53% |
| **Grantiau Penodol** | 17% |
| **Treth y Cyngor** | 18% |
| **Ffioedd / Arall** | 12% |

# Crynodeb o’r Gyllideb 2023-24

## Meysydd y Gyllideb a’u Dyraniadau Ariannol

| **Maes y gyllideb** | **Dyraniad Ariannol** |
|---|---:|
| Cyllideb Sylfaenol 2022 / 2023 | 233,696,000 |
| Amddiffyn a Chwyddiant | 7,206,000 |
| Pwysau Gwasanaeth | 10,687,000 |
| Cynyddu Cyllideb ysgolion | 5,246,000 |
| Grantiau sydd bellach wedi'u cynnwys o fewn neu a drosglwyddwyd allan o'r setliad | 148,000 |
| Buddsoddi mewn blaenoriaethau ac argyfyngau wrth gefn | 1,782,000 |
| Arian wrth gefn | -1,000,000 |
| Arbedion ac arbedion effeithlonrwydd sy'n benodol i wasanaethau | -6,972,000 |
| **Cyllideb Refeniw Net 2023 / 24** | **250,793,000** |

Mae Atodiad 1 yn dangos crynodeb o’r gyllideb refeniw fesul gwasanaeth ar gyfer 2023/24, gyda’r tudalennau sy’n dilyn yn rhoi gwybodaeth fanylach am bob gwasanaeth.

## Balansau

Mae’r Cyngor wedi datblygu balansau cyffredinol o £5.5m ar 31st March 2023, yn ogystal â lefel doeth o arian penodol wrth gefn. Mae cyllideb 2023/24 wedi ei gosod heb ddefnyddio arian wrth gefn. Bydd hyn yn cael ei adolygu fel rhan o’r broses gyllidebol flynyddol barhaus. Byddai’n rhaid i’r defnydd o arian parod gael ei adennill dros flynyddoedd i ddod ond gellir ei ddefnyddio, ac mae wedi cael ei ddefnyddio, i esmwytho effaith gostyngiadau cyllid mewn modd wedi’i gynllunio.

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

## Treth y Cyngor

Eleni cytunodd aelodau etholedig ar gynnydd o 3.80% yn Nhreth y Cyngor. Mae Treth y Cyngor sy'n daladwy ar gyfer pob band eiddo am wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Ddinbych wedi'i nodi isod:

| Band Treth | 2023/24 | 2022/23 |
|---|---:|---:|
| A | £1,023.57 | 986.11 |
| B | £1,194.16 | 1,150.46 |
| C | £1,364.76 | 1,314.81 |
| D | £1,535.35 | 1,479.16 |
| E | £1,876.54 | 1,807.86 |
| F | £2,217.73 | 2,136.56 |
| G | £2,558.92 | 2,465.27 |
| H | £3,070.70 | 2,958.32 |
| I | £3,582.48 | 3,451.37 |

## Cynllun Cyfalaf 2023/24

Mae'n rhaid i'r Cyngor gyfrif am ei fuddsoddiad yn ei asedau sefydlog ar wahân i drefniadau beunyddiol y sefydliad. Fe fydd prosiectau cyfalaf yn prynu, trwsio, adnewyddu a datblygu asedau fel y gellir parhau i'w defnyddio yn y dyfodol.

'Roedd y Setliad Terfynol am 2023/24 yn dangos cynnydd mewn cyllid cyfalaf o £1.026m to £6.129m. Mae angen i'r cynnydd hwn mewn Cyllid Grant penodol gael ei weld yng nghyd-destun gostyngiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru sy'n golygu fod rhaid i'r Cyngor barhau o hyd i ddibynnu ar ei adnoddau ei hun i fuddsoddi mewn prosiectau allweddol a blaenoriaethau lleol. Mae hyn yn golygu clustnodi adnoddau i gynhyrchu arian, gan ddefnyddio benthyca darbodus neu hyd yn oed werthu asedau i gynhyrchu derbyniadau.

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn cynhyrchu cynllun cyfalaf 3 blynedd sy'n rhoi manylion ynglŷn â lle y mae'n debygol o wario ei arian. Bydd pob cais am adnoddau cyfalaf yn cael

ei adolygu gan y Grŵp Craffu Cyfalaf (grŵp sy'n cynnwys aelodau etholedig ac uwch swyddogion) cyn y bydd yn cael ei ystyried ar gyfer ei gynnwys yn y Cynllun Cyfalaf. Cytunwyd ar y Cynllun Cyfalaf ar gyfer 2022/23 to 2025/26 gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2023. Ceir crynodeb o’r Cynllun Cyfalaf ar Atodiad 2.

## Y Stoc Dai

Mae gan y Cyngor ddwy swyddogaeth o ran tai. Mae’r cyntaf yn swyddogaeth statudol i fynd i’r afael â digartrefedd yn y Sir. Mae’r ail fel landlord stoc dai’r Cyngor, sy’n cynnwys tua 3,306 o anheddau.  Tra bod y gyllideb ddigartrefedd wedi’i chynnwys yng nghyllideb refeniw cyffredinol y Cyngor, mae’n rhaid i’r stoc dai gael ei chyfrif ar wahân.

Mae’r gyllideb ar gyfer y stoc dai wedi’i chadw yn y Cyfrif Refeniw Tai. Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i hwn gael ei gadw yn hollol ar wahân i wasanaethau eraill. Ni all Treth y Cyngor gael ei ddefnyddio i ariannu unrhyw wariant Cyfrif Refeniw Tai ac ni ellir defnyddio rhenti tai ar gyfer unrhyw beth heblaw gwasanaethau tai. Cafodd Cyllideb Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 ei chymeradwyo gan y Cabinet ar 13 December 2022. Amcangyfrifir y bydd yn gwario £19.302m, wedi’i ariannu gan renti tai sef £17.659m incwm arall o £0.721m a defnyddio £0.992m o falansau cyffredinol. Mae’r cynllun cyfalaf tai ar gyfer 2023/24 yn cynnwys cyfanswm o £19.537m i’w wario ar wella’r stoc dai, buddsoddi mewn caffaeliadau ac adeiladau newydd a gwelliannau eraill.

Mae Cynllun Busnes y Stoc Dai presennol yn tybio y cynhelir balans o £750k dros y tymor canolig i liniaru rhag unrhyw risgiau yn y dyfodol. Mae’r lefel hon o falans a gedwir yn cyfateb i 4% o’r trosiant refeniw blynyddol a thybir fod hyn yn ddarbodus a chall yn yr hinsawdd economaidd bresennol, gan ganiatáu rhywfaint o allu i ymateb i unrhyw amgylchiadau annisgwyl sy’n codi yn ystod tymor byr y Cynllun hyd at y tymor canolig. Mae cynnal y balans ar lefel hylaw yn lleihau’r angen i ymestyn y lefel bresennol o fenthyca gydag arbedion mewn costau ariannu cyfalaf blynyddol yn deillio o hyn. Mae’r strategaeth hon hefyd yn caniatáu ar gyfer posibilrwydd pellach yn y blynyddoedd sydd i ddod o ran y Cynllun i ymestyn y gofyniad benthyca os oes angen.

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

Cyflawnodd y Cyngor Safon Ansawdd Tai Cymru gyda'r Stoc Tai cyfan ym mis Medi 2014. Mae gwariant cyfalaf wedi cael ei gynnwys yn y CBST sy'n sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i barhau i gynnal y safon hon dros y cynllun 30 mlynedd. Mae'r arolwg o gyflwr y stoc wedi nodi gwaith atgyweirio, cynnal a chadw a chostau gwella ar gyfer y 30 mlynedd nesaf sydd o ganlyniad wedi eu cynnwys yn y cynllun busnes. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld cynnydd sylweddol yn y safonau angenrheidiol wrth i ni anelu ar gyfer Sero Net. Ni ddyranwyd unrhyw gyllideb ar gyher hyn hyd yma ac mae lefelau cyllid mwy hirdymor yn parhau'n anhysbys.

Mae crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai wedi'i gynnwys yn y Llyfr Cyllideb hwn.

## Casgliad

Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Er y croesawir cynnydd diweddar yn y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, nid yw'r setliad yn llwyddo i gadw gyda'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol yng Nghymru ac felly mae'n ostyngiad mewn termau real. Ysgolion a gofal cymdeithasol sy'n cynrychioli'r elfennau mwyaf arwyddocaol o gyllideb y cyngor ac mae costau'r rhain yn cynyddu y tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael. Mae pwysau hefyd yn cynyddu mewn meysydd eraill. Tra bydd y cyngor bob amser yn ceisio bod yn fwy effeithlon i arbed arian nid yw bellach yn bosibl i fynd i'r afael â'r bwlch cyllido drwy arbedion effeithlonrwydd yn unig ac mae rhaid cael cydbwysedd gofalus rhwng arbedion gwasanaeth a threthi lleol. Ar amser gosod y gyllideb, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn dangos gofyniad i arbed dros £6.4m yn 2024 a £7.5m y flwyddyn ganlynol. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar ffurf y cyngor a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yn y dyfodol.

Mae'n debygol na fydd setliadau cyllido llywodraeth leol yn y dyfodol yn gallu cadw ar yr un lefel â phwysau chwyddiant a fydd yn arwain at ostyngiad mewn cyllid termau real. Tra bod ansicrwydd ynglŷn ag union lefelau'r gostyngiad bob blwyddyn, mae'n anochel y bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd i sicrhau bod y Cyngor yn byw o fewn ei incwm ac yn parhau i gyflawni ei flaenoriaethau. Fodd bynnag, oherwydd bod y Cyngor wedi llwyddo i nodi a chyflawni arbedion gan reoli cronfeydd wrth gefn a balansau yn ofalus yn y

gorffennol, gellir bod yn hyderus iawn y bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol gan fuddsoddi rhywfaint ym Mlaenoriaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Cytunwyd ar Broses Cyllideb 3/5 Mlynedd a Chynllun Ariannol Tymor Canolig i helpu i sicrhau bod y Cyngor yn y sefyllfa orau posibl i wynebu'r her. Mae'r broses yn cael ei hadolygu a'i mireinio'n flynyddol ac mae agweddau a nodau allweddol Proses y Gyllideb ar gyfer 2024/25 a thu hwnt yn cynnwys:

- Dal pwysau cyllidebol yn seiliedig ar wasanaethau (o dan £100k)
- Nodi pwysau cyllidebol strategol allweddol (dros £100,000)
- Nodi targedau Effeithlonrwydd Gwasanaeth
- Cynllun Arbedion 5 mlynedd – canolbwyntio ar brosiectau allweddol a adnabuwyd yn ystod proses y gyllideb y llynedd
- Cronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn helpu i roi hwb i brosiectau effeithlonrwydd o bwys
- Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Caiff cydweithrediad a gwaith caled swyddogion ac aelodau wrth baratoi'r gyllideb ei gydnabod yn ddiolchgar.

**Steve Gadd**
**Pennaeth Cyllid ac Eiddo (Swyddog Adran 151)**

# Crynodeb o’r Gyllideb 2023-24

## Atodiad 1: Crynodebau Cyllideb Adrannol

| Adran | 2023/24 |
|---|---|
| Tai a chymunedau | 2,708,946 |
| Addysg a Gwasanaethau Plant | 21,466,264 |
| Ysgolion | 84,439,972 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau | 7,682,286 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol: Pobl | 4,080,714 |
| Cyllid ac Archwilio | 2,969,760 |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 17,359,276 |
| Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad | 11,759,580 |
| Gwasanaethau Cymorth Cymunedol | 51,522,717 |
| ADM - Cyllidebau Gweddilliol Hamdden | 3,401,887 |
| **Cyfanswm y gwasanaethau** | **207,391,402** |
| Corfforaethol a Amrywiol | 22,094,545 |
| praeseptau ac ardollau | 6,064,034 |
| Cyllid cyfalaf | 15,242,556 |
| **Cyfanswm cyllideb y cyngor** | **250,792,537** |

## Tai a chymunedau

| Ardal Gwasanaeth | 2023/24 |
|---|---|
| **Rheolaeth a chefnogaeth** | **90,582** |
| **Sir Ddinbych yn Gweithio** | **21,135** |
| **Tîm Cydnerthedd Cymunedol** | **98,399** |
| **Gwasanaeth Archifau** | **218,610** |
| **Llyfrgelloedd a Siopau Un Stop** | |
| Llyfrgelloedd | 1,194,751 |
| Gwasanaeth Llyfrgell Cartref | 26,055 |
| Llyfryddiaeth | 21,145 |
| Y capel | 36,659 |
| Siopau un stop | 398,739 |
| **Cyfanswm Llyfrgelloedd a Siopau Un Stop** | **1,677,349** |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

| | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Ieuenctid** | **602,871** |
| **Cyfanswm Tai a Chymunedau** | **2,708,946** |

## Addysg a Gwasanaethau Plant

| Ardal Gwasanaeth | 2023/24 |
|---|---|
| **Addysg** | |
| Rheolaeth a chefnogaeth | 355,188 |
| Tîm Staff Craidd | 269,854 |
| Rheoli Asedau | 166,032 |
| Cymorth Busnes | 236,415 |
| Moderneiddio Addysg | 75,301 |
| Cefnogaeth Lywodraethwyr | 2,383 |
| Costau ad-drefnu ysgolion | 144,146 |
| Rheoli Cymorth Addysg | 35,752 |
| ADY a chynhwysiant | 2,856,497 |
| Ad-daliad & OCC | 513,595 |
| SI & I Grantiau | 386,626 |
| Gwella Ysgolion | 1,550,296 |
| **Cyfanswm Addysg** | **6,592,085** |
| **Gwasanaethau Plant** | |
| Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd | 1,004,903 |
| Gwasanaethau Plant sy'n Derbyn Gofal | 9,431,663 |
| Gwasanaethau Plant Eraill | 464,330 |
| Diogelu ac Adolygu | 421,381 |
| Strategaeth Gwasanaeth | 3,257,874 |
| Troseddau Ieuenctid | 294,028 |
| **Cyfanswm y Gwasanaethau Plant** | **14,874,179** |
| **Cyfanswm Addysg a Gwasanaethau Plant** | **21,466,264** |

## Ysgolion

| Ardal Gwasanaeth | 2023/24 |
|---|---|
| **Ysgolion - Dirprwyedig** | **89,100,450** |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

| | |
|---|---|
| **Ysgolion – Heb ei ddirprwyo** | |
| Cynradd | -1,673,215 |
| Eilradd | -2,991,655 |
| Ysgolion arbennig | 4,392 |
| **Cyfanswm Ysgolion – Heb ei ddirprwyo** | **-4,660,478** |
| **Cyfanswm Ysgolion** | **84,439,972** |

## Cefnogaeth Gorfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau

| **Ardal Gwasanaeth** | **2023/24** |
|---|---|
| Rheoli Asedau | |
| Rheolaeth | 181,971 |
| Cydymffurfiaeth Adeiladu | 109,193 |
| Datblygu a Buddsoddiadau | 45,561 |
| Adeiladau Cymunedol | -29,449 |
| Llety Swyddfa | 1,093,049 |
| Adran Rheoli Cyfleusterau Ysgol | 5,831 |
| Rheoli Cyfleusterau Derbyn | 36,510 |
| Prisio ac Ystadau | -401,701 |
| **Cyfanswm Rheoli Asedau** | **1,040,965** |
| | |
| **Gwella Busnes a Moderneiddio** | |
| Tîm Rheoli BIM | 195,335 |
| Cynllunio Strategol | 254,232 |
| Swyddfa Rhaglen Gorfforaethol | 36,603 |
| Diogelwch Cymunedol | 32,701 |
| Newid Hinsawdd ac Ecolegol | 971,644 |
| **Cyfanswm Gwella Busnes a Moderneiddio** | **1,490,515** |
| | |
| **TGCH** | |
| Trawsnewid Busnes a rheoli TGCh | 2,478,052 |
| Cymorth Cyflenwi Gwasanaeth | 684,113 |
| Prosiectau TGCh | 20,000 |
| Swyddfa Cofnodion Digidol | 47,726 |
| **Cyfanswm TGCh** | **3,299,891** |

# Crynodeb o’r Gyllideb 2023-24

| | |
|---|---|
| **Eiddo** | |
| Asedau Strategol | 5,150 |
| Cyfleusterau a Chynnal a Chadw | 1,482,856 |
| Dylunio ac Adeiladu | 21,433 |
| Iechyd a Diogelwch | 170,928 |
| Prif Reolwr Eiddo | 240,548 |
| **Cyfanswm Eiddo** | **1,920,915** |
| **Cyfanswm Cefnogaeth Gorfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau** | **7,682,286** |

## Cefnogaeth Gorfforaethol: Pobl

| Ardal Gwasanaeth | 2023/24 |
|---|---|
| **Marchnata a Chyfathrebu Cyrchfan** | |
| Cyfathrebu Corfforaethol | 443,958 |
| Eisteddfod Ryngwladol Llangollen | 1,000 |
| Twristiaeth | 240,576 |
| Ymgysylltu â'r Cyhoedd | 168 |
| **Cyfanswm Marchnata a Chyfathrebu Cyrchfan** | **685,702** |
| **Iechyd a Diogelwch Corfforaethol** | **197,853** |
| **Siopau Un Stop** | **436,223** |
| **Cyfreithiol a Democrataidd** | |
| Rheolaeth a Chefnogaeth | 145,730 |
| Gweinyddiaeth | 493,066 |
| Cyfreithwyr Sirol | 685,319 |
| Civics | 4,950 |
| Cyfieithiad | 150,000 |
| Caffael | 238,740 |
| Cofrestrydd – genedigaethau/marwolaethau/mar | -31,607 |
| Cofrestru etholwyr | 166,617 |
| **Cyfanswm gwasanaethau cyfreithiol a democrataidd** | **1,852,815** |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

| Ardal Gwasanaeth | 2023/24 |
|---|---|
| **Adnoddau Dynol Strategol** | |
| Rheolaeth a Chefnogaeth | -125,189 |
| Hyfforddiant | 46,093 |
| Iechyd Galwedigaethol | -22,710 |
| Adnoddau a Chysylltiadau Gweithwyr | 930,442 |
| **Cyfanswm adnoddau dynol strategol** | **828,636** |
| **Mynediad at Wybodaeth** | **79,485** |
| **Cyfanswm Cefnogaeth Gorfforaethol: Pobl** | **4,080,714** |

## Cyllid ac Archwilio

| Ardal Gwasanaeth | 2023/24 |
|---|---|
| **Archwiliad** | **281,883** |
| **Cyllid Coporate** | |
| Trysorydd a chefnogaeth | 141,383 |
| Cyfrifon | 972,481 |
| Trysorlys | 374,092 |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | **1,487,956** |
| Refeniw & Budd-daliadau | |
| Refeniw | 1,368,805 |
| Cefnogaeth Systemau | 308,753 |
| Cost Casglu | -477,637 |
| **Cyfanswm Refeniw a Budd-daliadau** | **1,199,921** |
| **Cyfanswm Cyllid ac Archwilio** | **2,969,790** |

## Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

| Ardal Gwasanaeth | 2023/24 |
|---|---|
| **Rheoli Gwasanaeth** | |
| Rheolaeth | 195,923 |
| Storfeydd | 61,756 |
| Depots | 277,556 |
| **Cyfanswm Rheoli Gwasanaeth** | **535,235** |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

| | |
|---|---|
| **Priffyrdd Strategol** | |
| Arfordir | 250,277 |
| Pontydd ac Adeiladwaith | 351,972 |
| Cynllunio Argyfwng | 87,791 |
| Rheoli Perygl Llifogydd | 37,191 |
| Rheoli Asedau Priffyrdd | 1,927,550 |
| Hawliau Tramwy | 261,353 |
| Gwaith Stryd | -176,908 |
| **Cyfanswm Priffyrdd Strategol** | **2,739,226** |
| **Strydwedd** | |
| Rheolaeth a Gweinyddiaeth | 757,524 |
| Strydwedd Gogledd | 1,616,628 |
| Strydwedd De | 927,486 |
| Cynnal a Chadw'r Gaeaf | 681,081 |
| **Cyfanswm Strydwedd** | **3,982,719** |
| **Gwella Gwasanaethau a Fflyd** | |
| Fflyd | -66,297 |
| Ansawdd a Pherfformiad | 238,234 |
| **Cyfanswm Gwella Gwasanaethau a Fflyd** | **171,937** |
| **Uned Gwaith** | |
| Grŵp Prosiectau Mawr | -76,565 |
| Goleuadau Stryd | 1,157,254 |
| **Cyfanswm Uned y Gwaith** | **1,080,689** |
| **Arlwyo, glanhau a chyfleusterau cyhoeddus** | |
| Glanhau Adeiladu | 406,007 |
| Arlwyaeth | 1,208,296 |
| Cyfleusterau Cyhoeddus | 272,500 |
| **Cyfanswm Cyfleusterau** | **1,886,803** |
| **Gwasanaethau Gwastraff** | |
| Casgliad Sbwriel | 1,105,272 |
| Gwaredu Gwastraff | 1,925,479 |
| Ailgylchu | 2,250,089 |
| Gorsafoedd Trosglwyddo | -96,349 |
| Gwastraff Masnach | -80,127 |
| Gwasanaeth Gwastraff Gardd | 3,984 |
| Rheoli Gwastraff a Gweinyddu | 810,325 |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

| | |
|---|---|
| Gwastraff Bwyd | 1,128,171 |
| Ailgylchu Masnach | -55,122 |
| Bulkies and Deliveries | -29,055 |
| **Cyfanswm y Gwasanaethau Gwastraff** | **6,962,667** |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** | **17,359,276** |

## Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad

| Ardal Gwasanaeth | 2023/24 |
|---|---|
| **Cefn Gwlad, Diwylliant a Threftadaeth** | |
| Cefn gwlad | 1,200,863 |
| Treftadaeth | 325,422 |
| **Cyfanswm Cefn Gwlad, Diwylliant a Threftadaeth** | **1,526,285** |
| **Traffig a Pharcio** | |
| Rheoli Traffig a Pharcio | 116,313 |
| Gwasanaethau Parcio | -805,255 |
| Rheoli Datblygu Priffyrdd | 51,600 |
| Diogelwch ar y Ffyrdd | 323,516 |
| Rheoli Traffig | 187,126 |
| **Cyfanswm Traffig a Pharcio** | **-126,700** |
| **Cludiant** | |
| Cludiant Cyhoeddus | 528,326 |
| Cludiant Ysgol | 7,355,749 |
| **Cyfanswm Trafnidiaeth** | **7,884,075** |
| **Datblygu Economaidd a Busnes** | **344,717** |
| **Cynllunio** | |
| Strategaeth Tai | 63,125 |
| Adnewyddu Tai | 10,585 |
| Rheolaeth a Chefnogaeth | 270,580 |
| Cynllun Datblygu a Pholisi | 252,613 |
| Cadwraeth a Gweithredu | 70,086 |
| Rheoli Datblygu | 86,285 |
| Rheoli Adeiladu | 64,224 |
| Taliadau Tir | -76,512 |
| **Cyfanswm Cynllunio** | **740,986** |

# Crynodeb o’r Gyllideb 2023-24

| Ardal Gwasanaeth | 2023/24 |
|---|---|
| **Gwarchod y Cyhoedd** | |
| Rheolaeth a Chefnogaeth | 238,987 |
| Diogelwch Bwyd | 274,159 |
| Gorfodaeth Gymunedol | -4,232 |
| Iechyd a Diogelwch – Gorfodi | 103,387 |
| Iechyd y Cyhoedd | 214,829 |
| Trwyddedu | 7,925 |
| Safonau Masnach | 253,292 |
| Gorfodi Tai | 275,126 |
| Gorfodaeth Parcio | -5,249 |
| Diwylliant | 31,993 |
| **Cyfanswm Diogelu'r Cyhoedd** | **1,390,217** |
| **Cyfanswm Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad** | **11,759,580** |

## Gwasanaethau Cymorth Cymunedol

| Ardal Gwasanaeth | 2023/24 |
|---|---|
| **Cymorth Busnes a Chymunedau** | |
| WD & gweinyddu | 803,795 |
| Llys Gwarchod | 5,118 |
| Cysylltiadau Cwsmeriaid | 112,648 |
| Atal Digartrefedd | 4,316,147 |
| Siopau Teleofal | 249,221 |
| **Cyfanswm Cefnogaeth Gymunedol a Busnes** | **5,486,929** |
| | |
| **Gwasanaethau Cleientiaid** | |
| Contract a Chomisiynu | 923,641 |
| Cyfleoedd gwaith | 661,604 |
| Darparwr | 1,481,857 |
| Sefydliadau a Grantiau Gwirfoddol | 383,919 |
| 2 Yn y CLS House | 229,650 |
| Ailalluogi | 1,266,936 |
| Cefnogi byw'n annibynnol | 14,926 |
| Gofalwyr | 400,292 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cleientiaid** | **5,362,825** |
| | |
| **Ardaloedd** | |
| Ymyl neu ofal | 3,650 |
| Ardal Gogledd | 12,527,529 |
| Sounth Ardal | 8,627,688 |
| Un pwynt mynediad | 112,335 |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

| Ardal Gwasanaeth | 2023/24 |
|---|---|
| Camu i lawr ac adolygu | 247,945 |
| Pwynt Siarad | 2,369 |
| **Cyfanswm Ardaloedd** | **21,521,516** |
| | |
| Gwasanaethau arbenigol | |
| Iechyd meddwl | 3,500,819 |
| Anableddau Cymhleth | 16,464,660 |
| Diogelu, Camddefnyddio Sylweddau | 958,251 |
| Cyfanswm gwasanaethau arbenigol | **20,923,730** |
| **Gofal iechyd Cefndy** | **79,000** |
| | |
| **Gwasanaethau Canolog i Oedolion** | **-1,851,283** |
| | |
| **Cyfanswm y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** | **51,522,717** |

## ADM - Cyllidebau Gweddilliol Hamdden

| Ardal Gwasanaeth | 2023/24 |
|---|---|
| Safle | 26,174 |
| Ffi Rheoli | 1,522,583 |
| Cytundebau Lefel Gwasanaeth | 418,218 |
| Benthyca darbodus | 1,434,912 |
| **Cyfanswm ADM - Cyllidebau Gweddilliol Hamdden** | **3,401,887** |

## Corfforaethol a Amrywiol

| Ardal Gwasanaeth | 2023/24 |
|---|---|
| **Budd-daliadau'r Dreth Gyngor** | **11,161,200** |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | |
| Arian wrth gefn | 236,167 |
| Datblygu Economaidd ac Adfywio | 488,205 |
| Prif Weithredwr – Ysgrifenyddiaeth | 184,229 |
| Unsain | 25,542 |
| Crwneriaid | 181,243 |
| Cyfarwyddwyr Corfforaethol | 436,828 |
| Aelodau | 1,184,574 |
| Etholiadau | 26,660 |
| Cynllunio Argyfwng Corfforaethol | 1,500 |
| Tanysgrifiadau corfforaethol a ffioedd archwilio | 559,888 |
| Buddsoddi a Chwyddiant Corfforaethol (e.e. NNDR, Ynni, Cyflog) | 6,402,285 |
| Cyllidebau a ddelir yn ganolog - (e.e. costau pensiwn hanesyddol) | 1,206,224 |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

| Ardal Gwasanaeth | 2023/24 |
|---|---|
| **Cyfanswm y Cyllidebau Corfforaethol** | **10,933,345** |
| **Cyfanswm Corfforaethol a Amrywiol** | **22,094,545** |

# Atodiad 2: Cynllun Cyfalaf Cyngor Sir Ddinbych 2022/23 – 2025/26

## Cynllun Cyfalaf Cyffredinol

| Cyllideb | 2022/23 Amcangyfrif gwreiddiol | 2023/24 Amcangyfrif Diweddaraf | 2023/24 Amcangyfrif Diweddaraf | 2024/25 Amcangyfrif Diweddaraf | 2025/26 Amcangyfrif Diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant cyfalaf** | | | | | |
| Cyfanswm y taliadau a amcangyfrifir - eraill | 25,658 | 22,464 | 47,078 | 618 | 239 |
| **Cyfanswm y taliadau a amcangyfrifir - prosiectau mawr:** | | | | | |
| Grantiau Gwella Tai | 1,303 | 1,500 | 1,872 | 0 | 0 |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 4,713 | 4,713 | 5,209 | 0 | 0 |
| Cynllun Amddiffyn Arfordir Canol Prestatyn | 496 | 16,420 | 9,952 | 7,618 | 8,028 |
| Cynllun Amddiffyn Arfordirol Canol Y Rhyl | 626 | 35,052 | 29,799 | 22,864 | 12,737 |
| Ailddatblygu Marchnad Queens Y Rhyl | 3,662 | 2,848 | 2,709 | 175 | 0 |
| Gwasanaeth Gwastraff Ailfodelu | 4,372 | 8,847 | 10,046 | 0 | 0 |
| Wrth gefn | 0 | 500 | 578 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **40,829** | **92,344** | **107,241** | **31,275** | **21,004** |
| | | | | | |
| **Cyllid cyfalaf** | | | | | |
| Cyllid allanol | 26,922 | 21,253 | 37,224 | 693 | 139 |
| Derbyniadau a Gwarchodfeydd | 2,330 | 3,980 | 7,406 | 0 | 0 |
| Benthyca darbodus | 11,579 | 67,111 | 62,611 | 30,582 | 20,865 |
| Cyllid heb ei ddyrannu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

## Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

| Cyllideb | 2022/23 Amcangyfrif gwreiddiol | 2023/24 Amcangyfrif Diweddaraf | 2023/24 Amcangyfrif Diweddaraf | 2024/25 Amcangyfrif Diweddaraf | 2025/26 Amcangyfrif Diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf** | **40,831** | **92,344** | **107,241** | **31,275** | **21,004** |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

## Gwasanaethau Cynllun Cyfalaf

| **Cyllideb** | **2022/23 £000** | **2023/24 £000** | **2024/25 £000** | **2025/26 £000** |
|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r rhaglen gyfalaf** | | | | |
| Gwasanaethau cyfreithiol, AD a democrataidd | 28 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid ac Eiddo | 10,373 | 3,961 | 0 | 0 |
| Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd | 4,594 | 3,327 | 0 | 0 |
| Gwelliant Busnes a Moderneiddio | 244 | 200 | 350 | 0 |
| Gwasanaethau Cymorth Cymunedol | 1,498 | 240 | 0 | 0 |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 23,290 | 64,170 | 27,038 | 13,420 |
| Gwasanaethau Addysg a Phlant | 14,261 | 7,078 | 0 | 0 |
| Wrth gefn | 764 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Crynodeb o'r Gwasanaeth** | **55,052** | **78,976** | **27,388** | **13,420** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd** | | | | |
| Adleoli Llety'r Crwner, Neuadd y Sir, Rhuthun | 2 | | | |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

| Cyllideb | 2022/23 £000 | 2023/24 £000 | 2024/25 £000 | 2025/26 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Adleoli'r Gwasanaeth Cofrestru i Neuadd y Sir, Rhuthun | 26 | | | |
| **Cyfanswm y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd** | **28** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | |
| **Cyllid ac Eiddo** | | | | |
| Ystadau Amaethyddol | 135 | 50 | | |
| Eiddo, Gwaith Cynnal a Chadw Cyfalaf - Dyraniad Bloc | 1,705 | 10 | | |
| Gwaith Asesu Risg Tân - Adeiladau Cyhoeddus | 137 | 331 | | |
| Asbestos | 188 | 427 | | |
| Cyfartaleddau | 103 | | | |
| Lleihau Allyriadau Carbon o Asedau'r Cyngor | 390 | 257 | | |
| Seilwaith Cerbydau Trydan - Pwyntiau Codi Tâl Cyhoeddus | 213 | | | |
| Effeithlonrwydd / Lleihau Ynni yn Ysgol Dinas Bran | 52 | | | |
| Effeithlonrwydd Ynni/Lleihau Ynni yn Theatr y Pafiliwn, Y Rhyl | 616 | | | |
| Effeithlonrwydd / Lleihau Ynni yn Neuadd y Sir, Rhuthun | 209 | | | |
| Fflyd Gorfforaethol Cerbydau Trydan Codi Tâl Seilwaith Cam 1 | 770 | | | |
| Fflyd Gorfforaethol Cerbydau Trydan Codi Tâl Seilwaith Cam 2 | 759 | | | |
| Neuadd y Sir Gwell Defnydd - System Rheoli Adeiladu wedi'i huwchraddio | 10 | | | |

# Crynodeb o’r Gyllideb 2023-24

| **Cyllideb** | **2022/23 £000** | **2023/24 £000** | **2024/25 £000** | **2025/26 £000** |
|---|---|---|---|---|
| Neuadd y Sir Gwell Defnydd - Adleoli Y Bont | 2 | | | |
| Datblygiad Pafiliwn Corwen | | 18 | | |
| Llety Safle Sipsiwn a Theithwyr - dichonoldeb | | 20 | | |
| Y Rhyl, Ailddatblygiad Adeilad y Frenhines | 4,041 | 2,848 | | |
| Ardal Adfywio Gorllewin y Rhyl Ph 2 (3-23 Stryd Edward Henry) | 932 | | | |
| Hen Swyddfa'r Post Y Rhyl - Maes Parcio | | | | |
| Caffael tir yng Nglan Elwy | 111 | | | |
| **Cyfanswm Cyllid ac Eiddo** | **10,373** | **3,961** | **0** | **0** |
| **Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad** | | | | |
| Grantiau Gwella Tai | 1,564 | | | |
| Galluogi 2022-23 | 200 | | | |
| Ymateb Covid Canol Trefi - Cymorth Grant | 38 | | | |
| Porth Canol Tref Y Rhyl Ph 1 - Caffael 123-131 Stryd Fawr | 126 | | | |
| Gwesty'r Goron, Dinbych | 42 | | | |
| Meysydd Traffig a Meysydd Parcio | 504 | | | |

## Crynodeb o’r Gyllideb 2023-24

| Cyllideb | 2022/23 £000 | 2023/24 £000 | 2024/25 £000 | 2025/26 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Trafnidiaeth Leol | 239 | | | |
| Cronfa Teithio Llesol | 500 | | | |
| Creu Coetir ar dir sy'n eiddo i gamau 1 a 2 y Cyngor | 594 | | | |
| Grant Cymorth Rhandiroedd | 56 | | | |
| Cronfa Lefelu i Fyny Llywodraeth De Cymru Clwyd | 731 | 3,327 | | |
| **Cyfanswm y Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad** | **4,594** | **3,327** | **0** | **0** |
| **Gwella Busnes a Moderneiddio** | | | | |
| Cam 2 Strategaeth TGCh | 244 | 200 | 350 | |
| **Cyfanswm Gwella Busnes a Moderneiddio** | **244** | **200** | **350** | **0** |
| **Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** | | | | |
| Mân addasiadau, offer cymunedol a teleofal | 210 | 240 | | |
| Is-ranbarthol - Canolfan Asesu Preswyl Plant Ranbarthol. (Meadow Lodge) | 1,288 | | | |
| **Cyfanswm y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** | **1,498** | **240** | **0** | **0** |
| **Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol** | | | | |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

| Cyllideb | 2022/23 £000 | 2023/24 £000 | 2024/25 £000 | 2025/26 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 5,603 | | | |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd - Datleoli Cyfalaf | 5 | 500 | | |
| Pontydd | 1,216 | 403 | | |
| Hawliau Tramwy | 171 | | | |
| Grant Gwella Mynediad | 64 | 78 | 78 | |
| Harbwr y Rhyl/Llyn Morol - Gwaith i revetments | 40 | | | |
| Adferiad o fis Chwefror 2020 Llifogydd | 40 | | | |
| Goleuadau Stryd | 15 | | | |
| Amddiffyn yr Arfordir - Arolygiadau a Chynnal a Chadw Hanfodol | 188 | 200 | | |
| Amddiffyn Arfordir Prestatyn - Achos Busnes Amlinellol | 395 | | | |
| Amddiffyn Arfordir Prestatyn - Atgyweiriadau i Open Stone Asphalt Revetment 2 | 4 | | | |
| Amddiffyn Arfordir Prestatyn - Cyfnod Adeiladu | 267 | 16,420 | 4,773 | 4,633 |
| Amddiffyn Arfordir Canol Y Rhyl - Achos Busnes Amlinellol | 928 | | | |
| Amddiffyn Arfordir Canol Y Rhyl - Cyfnod Adeiladu | | 35,052 | 22,187 | 8,787 |
| Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl | 2,333 | | | |

# Crynodeb o’r Gyllideb 2023-24

| Cyllideb | 2022/23 £000 | 2023/24 £000 | 2024/25 £000 | 2025/26 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Atal Llifogydd - Cyffredinol | 63 | 200 | | |
| Rheoli Llifogydd Naturiol yn Sir Ddinbych | 947 | | | |
| Cerbydau, Peiriannau ac Offer | 1,000 | | | |
| Electric Tacsis Green Fflyd Peilot / Cronfa Trawsnewid Cerbydau Ultra Allyriadau Isel | 595 | | | |
| Gerddi Botanegol,Y Rhyl - Llety Newydd a Gwaith Gwella Iechyd a Diogelwch | 799 | 1,360 | | |
| Depo Lon Parcwr - Gwelliannau i Ddiogelwch a Lles Depo | 175 | | | |
| Gwelliannau Ardaloedd Chwarae - Blwyddyn 1 | 166 | | | |
| Depo Gwastraff Canol Newydd, Dinbych | 911 | | | |
| Ailfodelu Gwasanaeth Gwastraff | 6,040 | 8,847 | | |
| Rake traeth | 58 | | | |
| Hygyrchedd Chwarae Cymru Gyfan | 25 | | | |
| Gosod ysguboriau halen yn Depo Corwen | 469 | 460 | | |
| Gosod ysguboriau halen yn Depo Lon Parcwr | 652 | 650 | | |
| Seilwaith Gwyrdd y Rhyl - Cyllid Trawsnewid Trefi | 101 | | | |
| Peiriant tynnu gwm cnoi | 20 | | | |

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

| Cyllideb | 2022/23 £000 | 2023/24 £000 | 2024/25 £000 | 2025/26 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol** | **23,290** | **64,170** | **27,038** | **13,420** |
| **Addysg a Gwasanaethau Plant** | | | | |
| Dyrannu Bloc Cynnal a Chadw Cyfalaf Ysgolion | 5,648 | 2,327 | | |
| Prydau Ysgol Am Ddim Cyffredinol Cyfnodau 1 a 2 | 1,359 | 703 | | |
| Cludiant yn y Gweithle Ysgol | 190 | 956 | | |
| Cydraddoldeb | 53 | 100 | | |
| Ysgol Emmanuel - Gwelliannau Mynediad | 11 | 172 | | |
| Canolfan Oaktree - Ehangu 'Mes Bach' - Grant Gofal Plant Llywodraeth Cymru | 978 | | | |
| Ysgol Twm o'r Nant - Adleoli Cylch Bodawen i Ysgol Twm o'r Nant - Grant Gofal Plant LlC | 727 | 243 | | |
| Ysgol Dewi Sant - Adleoli 2 grŵp cylch - Grant Gofal Plant LlC | 2 | 1,123 | | |
| Addysg a Gwasanaethau Plant | 396 | | | |
| Dyrannu Bloc Cynnal a Chadw Cyfalaf Ysgolion | 493 | | | |
| Prydau Ysgol Am Ddim Cyffredinol Cyfnodau 1 a 2 | 33 | | | |
| Cludiant yn y Gweithle Ysgol | 42 | | | |
| Cydraddoldeb | 31 | | | |
| Ysgol Emmanuel - Gwelliannau Mynediad | 9 | | | |

# Crynodeb o’r Gyllideb 2023-24

| Cyllideb | 2022/23 £000 | 2023/24 £000 | 2024/25 £000 | 2025/26 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Canolfan Oaktree - Ehangu 'Mes Bach' - Grant Gofal Plant Llywodraeth Cymru | 339 | | | |
| Ysgol Twm o'r Nant - Adleoli Cylch Bodawen i Ysgol Twm o'r Nant - Grant Gofal Plant LlC | 197 | | | |
| Ysgol Dewi Sant - Adleoli 2 grŵp cylch - Grant Gofal Plant LlC | 126 | | | |
| Band B Ysgolion 21c - Ysgol Uwchradd Dinbych | 156 | | | |
| Band B Ysgolion 21c - Ysgol Plas Brondyffryn | 1,704 | 536 | | |
| Canolfan Ieuenctid y Rhyl - Gwaith Adnewyddu | 226 | | | |
| Ysgol y Castell, Y Rhyl - Estyniad Ystafell Ddosbarth | 2 | 479 | | |
| Grant Ysgolion Cymunedol Canolbwyntio | 688 | | | |
| Dyraniad cyllid Brookhouse a106 | 75 | | | |
| Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | 522 | | | |
| Pwll hydrotherapi, Ysgol Tir Morfa | 165 | 439 | | |
| Cynlluniau benthyca darbodus Ysgol Uwchradd Prestatyn | 89 | | | |
| **Cyfanswm Addysg a Gwasanaethau Plant** | **14,261** | **7,078** | **0** | **0** |
| **Arian wrth gefn** | **764** | | | |
| **Cyfanswm gwasanaethau'r Cynllun Cyfalaf** | **55,052** | **78,976** | **27,388** | **13,420** |

# Atodiad 3: Y Cyfrif Refeniw Tai a’r Cynllun Cyfalaf Tai

## Rhagarweiniad

Yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2022, mabwysiadodd y Cabinet y gyllideb refeniw a chynllun cyfalaf ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Trwy fabwysiadu’r gyllideb, cytunwyd i gynyddu rhent ar gyfer anheddau a garejis yn unol â’r polisi gosod rhent o ddydd Llun 3 Ebrill 2023.

## Cyllideb Refeniw Tai

Caiff cyllideb Y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 a fabwysiadwyd gan y Cabinet ei ddangos ar y dudalen nesaf. Mae'r gyllideb wedi'i chyfrifo i sicrhau y gallwn ddarparu ein gwasanaethau refeniw, y rhaglen buddsoddi cyfalaf i gynnal safon ansawdd ein cartrefi a datblygu ein rhaglen adeiladu o'r newydd.

Rydym yn rhagweld costau ychwanegol sylweddol yn y blynyddoedd i ddod oherwydd safonau datgarboneiddio newydd disgwyliedig ar gyfer ein stoc bresennol. Mae pob landlord cymdeithasol yng Nghymru yn rhagweld cyllid ychwanegol gan LIC i gefnogi hyn.

## Polisi Rhent Llywodraeth Cymru

Datblygodd Llywodraeth Cymru bolisi ar gyfer rhent tai cymdeithasol a gaiff ei gymhwyso’n gyson gan yr holl landlordiaid cymdeithasol a bydd yn adlewyrchu math; maint; lleoliad ac ansawdd eiddo’r landlord. O ystyried y cynnydd sylweddol yng nghyfradd chwyddiant y DU (CPI) sy’n 10.1%, ar gyfer 2023/24, mae’r Gweinidog wedi cytuno i gynnydd rhent uchafswm o 6.5% ar y cyd â rhai ymrwymiadau ychwanegol eraill yn cael eu cytuno gyda’r sector tai. Mae’r rhain yn cynnwys dim troi allan oherwydd caledi ariannol a darparu cymorth a dargedir I aelwydydd, mae’r rhain yn faterion y gallwn ymrwymo iddynt. Mae penderfyniad y Gweinidog yn uchafswm ac ar gyfer Sir Ddinbych rydym yn cynnig cynyddu ein rhenti wythnosol o 5%. Felly, i grynhoi –

- Cyfanswm y cynnydd ar draws yr holl stoc yw 5%.
- Y rhent wythnosol cyfartalog fydd £102.31
- Y cynnydd rhent wythnosol cyfartalog fydd £4.87.

# Crynodeb o'r Gyllideb 2023-24

Fel rhan o bolisi rhenti LIC, bydd yn ofynnol i'r cyngor sicrhau bod unrhyw gynnydd mewn rhent yn ystyried fforddiadwyedd ar gyfer tenantiaid, gwerth am arian ac asesiad o effeithlonrwydd cost.

## Cynllun Cyfalaf Tai

Fel rhan o'r broses gyllidebol mae angen adolygu Cynllun Busnes y Stoc Dai, a chyflawnir hyn drwy ymarfer diwydrwydd dyladwy parhaus i adolygu'r tybiaethau a ddefnyddir a dilysu cadernid y model ariannol. Yn ogystal, mae'r adolygiad yn ymgymryd â dadansoddiad o sensitifrwydd.

Mae Cynllun Busnes y Stoc Dai presennol yn tybio y cynhelir balans o o leiaf £750k dros y tymor canolig i liniaru rhag unrhyw risgiau yn y dyfodol.

Mae Cynllun Busnes y Stoc Dai yn cynnal benthyca i ariannu gwaith cyfalaf megis y rhaglenni adeiladau newydd a rhaglenni gwella. Caiff y lefel o fenthyca ei fonitro'n agos gan ei fod yn ymwneud â chostau ariannu cyfalaf blynyddol. Mae pob cyngor yng Nghymru wedi dod i gytundeb â Llywodraeth Cymru i gael gwared ar gap benthyca'r Cyfrif Refeniw Tai yn unol â Gweithred Terfynu Cytundeb Gwirfoddol Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai ar 20 Mawrth 2019. Diddymodd hyn y cap y cytunwyd arno yn flaenorol a gyflwynwyd gan daliad setliad Deddf Tai 2014.

Mae'n ofynnol o hyd i'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru o dan y Rheoliad i roi sylw i'r Cod Darbodus wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Felly bydd unrhyw fenthyca a wneir drwy Lwfansau Tai Lleol yn dilyn diddymu'r cap benthyca yn parhau i fod yn “ddigymorth”. Yn ogystal, bydd yn rhaid i Awdurdodau Lleol reoli unrhyw gynnydd o fewn eu hadnoddau presennol.

## Cyfrif Refeniw Tai - Cyllideb 2023/24

| Cyllideb | Cyllideb Wreiddiol 2022/23 £ | 2022/23 Rhagolwg Out-turn M9 £ | 2023/24 Cyllideb Arfaethedig £ |
|---|---|---|---|
| **Gwariant:** | | | |
| Goruchwylio a Rheoli - Cyffredinol | 2,734,769 | 2,832,990 | 3,080,891 |
| Goruchwylio a Rheoli - Taliadau Gwasanaeth | 580,003 | 586,009 | 637,109 |
| Atgyweirio a Chynnal a chadw | 5,327,541 | 5,540,000 | 6,023,000 |
| **Cyfanswm Rheoli Tai** | **8,642,313** | **8,959,000** | **9,741,000** |
| Eitem 8 Pridiannau Cyfalaf | 6,631,000 | 6,327,000 | 7,471,000 |
| Cyfalaf wedi'i ariannu o Revenue | 1,831,000 | 1,701,102 | 1,808,102 |
| Cyfalaf a ariennir o Refeniw - AHG | 135,000 | 134,898 | 135,000 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 345,000 | 145,000 | 147,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **17,584,313** | **17,267,000** | **19,302,102** |
| | | | |
| **Incwm** | | | |
| Rhenti (net o wagleoedd) | 16,862,000 | 16,677,000 | 17,659,000 |
| Taliadau Gwasanaeth | 397,000 | 362,000 | 383,000 |
| Garejys | 182,000 | 184,408 | 195,000 |
| Grant Tai Fforddiadwy | 135,000 | 134,898 | 135,000 |
| Llog ar balansau ac incwm arall | 5,000 | 10,000 | 7,750 |
| **Cyfanswm Incwm** | **17,581,000** | **17,368,306** | **18,379,750** |
| | | | |
| **Gweddill /Diffyg (-) ar gyfer y flwyddyn:** | | | |
| | | | |
| **Balansau Cyffredinol** | **1,827,687** | **1,802,409** | **885,750** |
| | | | |
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn - Cyffredinol | 2,056,536 | 2,056,536 | 2,157,843 |
| | | | |
| **Balansau wedi'u clustnodi** | **-1,831,000** | **-1,701,102** | **-1,808,102** |
| Balans ar ddiwedd y flwyddyn - Cyffredinol | 2,053,223 | 2,157,843 | 1,235,491 |

| Ardal | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Cyfalaf** | | | | | |
| Gwelliannau wedi'u cynllunio | 14,139,000 | 9,249,000 | 9,572,000 | 9,908,000 | 10,156,000 |
| Adeiladu adeiladau newydd | 10,625,000 | 10,288,000 | 4,408,000 | 5,501,000 | 243,000 |
| Caffael Eiddo | 750,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwelliannau eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **25,514,000** | **19,537,000** | **13,980,000** | **15,409,000** | **10,399,000** |
| | | | | | |
| **Cyllid Cyfalaf** | | | | | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 2,373,000 | 2,373,000 | 2,373,000 | 2,373,000 | 2,373,000 |
| Derbyniadau Cyfalaf y gellir eu Defnyddio | 70,000 | 895,000 | 0 | 0 | 0 |
| Benthyca | 15,000,000 | 12,000,000 | 10,500,000 | 5,000,000 | 5,000,000 |
| Ffynonellau cyllid eraill | 6,235,000 | 2,325,000 | 0 | 1,200,000 | 0 |
| Capital Exp. wedi'i ariannu gan HRA | 1,836,000 | 1,944,000 | 1,107,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **25,514,000** | **19,537,000** | **13,980,000** | **8,573,000** | **7,373,000** |
| | | | | | |
| **Gwariant refeniw** | | | | | |
| Rheolaeth | 3,419,000 | 3,718,000 | 3,910,000 | 4,096,000 | 4,249,000 |
| Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw | 5,540,000 | 6,023,000 | 6,336,000 | 6,639,000 | 6,889,000 |
| Diddordeb | 3,070,000 | 3,465,000 | 3,743,000 | 3,858,000 | 3,848,000 |
| Tâl Ariannu Cyfalaf | 3,257,000 | 4,006,000 | 4,604,000 | 5,128,000 | 5,377,000 |
| **Cyfanswm** | **15,286,000** | **17,212,000** | **18,593,000** | **19,721,000** | **20,363,000** |
| | | | | | |
| **Incwm Refeniw** | | | | | |
| Incwm Rhent Gros | 17,056,000 | 18,057,000 | 19,168,000 | 19,531,000 | 20,287,000 |
| Garejys | 184,000 | 195,000 | 201,000 | 207,000 | 211,000 |
| Taliadau Gwasanaeth | 362,000 | 383,000 | 395,000 | 407,000 | 415,000 |
| Bylchau | -379,000 | -398,000 | -420,000 | -426,000 | -441,000 |
| Dyledion drwg | -145,000 | -147,000 | -149,000 | -150,000 | -152,000 |
| Diddordeb mewn Balansau | 135,000 | 135,000 | 135,000 | 135,000 | 135,000 |
| **Cyfanswm** | **17,213,000** | **18,225,000** | **19,330,000** | **19,704,000** | **20,455,000** |
| | | | | | |
| **Balansau** | | | | | |
| Gweddill/ Diffyg (-) ar gyfer y flwyddyn | 1,937,000 | 1,021,000 | 742,000 | -13,000 | 95,000 |
| Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan y Cyfrif Refeniw Tai | 1,836,000 | 1,944,000 | 1,107,000 | 0 | 0 |
| Balans wedi'i gario ymlaen | 2,057,000 | 2,158,000 | 1,235,000 | 870,000 | 857,000 |
| Gweddill/ Diffyg (-) ar ôl CERA | 101,000 | -923,000 | -365,000 | -13,000 | 95,000 |

# Crynodeb o’r Gyllideb 2023-24

| Ardal | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Balans wedi’i gario ymlaen** | **2,158,000** | **1,235,000** | **870,000** | **857,000** | **952,000** |